Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd,

MAES AWYR CAERDYDD

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar Faes Awyr Caerdydd yr euthum iddo gyda'r Pwyllgor Cyfrifon a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 3 Tachwedd, ymrwymais i ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi am nifer o feysydd. Roedd y camau hyn wedi'u hamlinellu yn y llythyr y gwnaethoch ei anfon ataf i dyddiedig 18 Tachwedd. Rwyf wedi ymateb i bob un o'r pwyntiau hyn isod.

Ers i Lywodraeth Cymru gaffael Maes Awyr Caerdydd yn 2013, a oes unrhyw daliadau bonws neu fuddion wedi cael eu talu i swyddogion gweithredol y sefydliad? Os felly, a allech hefyd roi manylion y taliadau bonws neu'r buddion a dalwyd a rôl Holdco a/neu Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â nhw?

Materion i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ("CIAL") eu hystyried ac ymateb iddynt yw staffio a thaliadau cydnabyddiaeth, gan eu bod yn endid cyfreithiol ar wahân i Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi gofyn i Spencer Birns; Prif Swyddog Gweithredol, CIAL, ysgrifennu atoch gyda manylion unrhyw fonws neu fuddion a dalwyd. Gallaf, er hynny, roi rhagor o fanylion ichi am rôl LlC, Holdco a CIAL yn y maes hwn. Mae Holdco yn gwmni cyfyngedig preifat sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei weithredu fel busnes masnachol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benodi cyfarwyddwyr i fwrdd Holdco. Holdco yw'r unig gyfranddaliwr yn CIAL – mabwysiadwyd y strwythur hwn ar gyfer Holdco er mwyn caniatáu i CIAL weithredu ar sail fasnachol hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru (cafwyd cyngor cyfreithiol a masnachol manwl am y strwythur hwnnw pan aed ati i gaffael y maes awyr). Mae'r berthynas rhwng Holdco a CIAL yn cael ei llywodraethu gan femorandwm ac erthyglau CIAL, a hefyd gan Gytundeb Rheoli a wnaed yn 2013 rhwng Holdco a CIAL. O dan y Cytundeb Rheoli, ymdrinnir â'r trefniadau talu cydnabyddiaeth mewn nifer o ffyrdd:

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

(i) Bwrdd cyfarwyddwyr CIAL sy'n gyfrifol am benderfynu a phennu'r taliadau cydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr CIAL, ar yr amod ei fod yn cael cydsyniad ysgrifenedig Holdco ymlaen llaw;

(ii) Holdco sy'n gyfrifol am benderfynu ar rai "Materion Cydsyniad" penodol sy'n faterion neu'n benderfyniadau penodedig na ddylai CIAL na'i fwrdd eu cymryd, heb gydsyniad penodol Holdco. Mae rhai o'r "Materion Cydsyniad" yn ymwneud â thaliadau cydnabyddiaeth, er enghraifft, mae angen cydsyniad Holdco cyn i CIAL:

- ymrwymo i/derfynu unrhyw gontract cyflogaeth ... mewn perthynas â gwasanaethau unrhyw berson:

    - os yw'r cyfryw berson, neu os bwriedir i'r cyfryw berson, fod yn un o gyfarwyddwr gweithredol CIAL, neu

    - pan fo'r buddion blynyddol (gan gynnwys taliadau bonws a chyfraniadau pensiwn) sy'n daladwy o dan gontract o'r fath yn fwy na £50,000 (cysylltiedig â mynegai) neu os bwriedir iddynt fod yn fwy na hynny;

  (oni bai bod cytundeb o'r fath wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth CIAL).

- cyn unrhyw newid, cydsyniad, cymeradwyaeth neu hepgoriad o dan delerau unrhyw gontractau cyflogaeth fel y'u disgrifir uchod, neu unrhyw gynnydd neu amrywiad yn y sail a ddefnyddir i gyfrifo'r taliad cydnabyddiaeth a delir gan CIAL (gan gynnwys unrhyw gyflog, ffi, bonws neu hawl i gomisiwn neu gyfraniad pensiwn) o dan unrhyw gontract/gytundeb o'r fath (oni bai bod y cyfryw gynnydd neu amrywiad yn y taliad cydnabyddiaeth wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth CIAL).

Er cyflawnder, hoffem nodi bod Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithas CIAL yn ymdrin â materion fel cyfalaf cyfranddaliadau, neilltuo etc., nifer y cyfarwyddwyr, cyfarfodydd cyffredinol, pwerau cyfarwyddwyr, penodi/ymddeol cyfarwyddwyr ac yn y blaen, fel sy'n arferol ar gyfer dogfennau cyfansoddiadol cwmni. Mae darpariaethau cyfyngedig yn y dogfennau hyn sy'n ymwneud â threuliau cyfarwyddwyr ac arian rhodd a phensiynau, ac ategir yr agweddau hynny gan ddarpariaethau'r Cytundeb Rheoli.

Gofynnodd y Pwyllgor ***am ragor o wybodaeth am y senarios amgen, gan gynnwys y rheini nad oeddent yn cynnwys cefnogi'r Maes Awyr. Dylai'r wybodaeth honno gynnwys esboniad pam nad ystyriwyd gwerthu asedau, y mathau gwahanol o ryngweithio mewn perthynas â gwerthoedd tir, a'r potensial i gael caniatâd cynllunio, yn opsiwn a ffefrid er mwyn symud y sefyllfa yn ei blaen.***

Fel a ddisgrifiwyd yn y Sesiwn Tystiolaeth, pe bai Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chefnogi CIAL, byddai ei arian wedi dod i ben ddechrau mis Ebrill 2021; byddai hynny wedi golygu na fyddai wedi gallu bodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Byddai rhwymedigaeth ar gyfarwyddwyr CIAL i'w gredydwyr i ddatgan bod y busnes yn ansolfent oni bai y byddai modd cadarnhau y byddai arian ar gael i dalu am rwymedigaethau'r busnes am y

12 mis nesaf. Pe bai CIAL wedi mynd yn ansolfent, byddai'n rhaid ei roi yn nwylo gweinyddwyr a gallai hynny fod wedi arwain at ddatodi gwirfoddol fel ffordd o gau Maes Awyr Caerdydd (y "Maes Awyr") a chlirio unrhyw ddyledion a oedd yn weddill.

Ym mis Mawrth 2021, dywedodd y cynghorwyr annibynnol Duff & Phelps y gellid disgwyl i Lywodraeth Cymru adennill tua £15 miliwn pe bai'r Maes Awyr yn cael ei ddatodi, ac asedau CIAL yn cael eu gwerthu ar sail unedau ar wahân. At hynny, dywedodd Duff & Phelps na fyddai anghenion y busnes o ran cyllid yn llai ar ôl penodi gweinyddwyr oherwydd bod y rhan fwyaf o anghenion y datodiad yn gysylltiedig ag ariannu colledion yn y dyfodol a gwariant cyfalaf critigol yr oedd ei angen i redeg y Maes Awyr. Gallai'r angen hwnnw am gyllid fod wedi profi'n ormod yn fasnachol i unrhyw bartïon fyddai â diddordeb mewn caffael y Maes Awyr i'w ddefnyddio yn yr un modd ag y'i defnyddid ar y pryd. Gallai hynny fod wedi arwain at ddirwyn CIAL i ben, ac at werthu ei asedau ar sail unedau ar wahân drwy ddatodi. Byddai hynny wedi golygu y byddai buddiant ecwiti Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o'i benthyciadau masnachol yn y Maes Awyr yn cael eu dileu'n llawn, ac mai dim ond y swm bach o oddeutu £15 miliwn y byddai'n ei adennill o gymharu â'i hymrwymiad cyllido (sef cyfanswm o oddeutu £130 miliwn yn ei grynswth ym mis Mawrth 2021).

Cynhaliodd Duff & Phelps adolygiad o gyfleoedd i ddatblygu'r tir yn y dyfodol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid ffafrio datblygiadau preswyl ar y tir, er y byddai angen rhagor o ddiwydrwydd dyladwy er mwyn asesu dichonoldeb hynny.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ddarparu cymorth datodiad dros dro i CIAL ar ffurf cyllid am 12 mis er mwyn i'r Maes Awyr fedru ymadfer o'r pandemig cyn gynted ag y câi'r cyfyngiadau teithio eu codi. Byddai'r opsiwn hwnnw wedi costio cyfanswm o oddeutu £10 miliwn i Lywodraeth Cymru dros 12 mis, ac yn y pen draw, roedd yn debygol iawn y byddai CIAL yn cael ei ddatodi ymhen 12 mis p'un a fyddai nifer y teithwyr yn cyrraedd ei lefel arferol ai peidio. Gwnaeth Duff & Phelps hefyd ystyried rhinweddau strategaeth o roi'r gorau i ddefnyddio'r Maes Awyr am 12 mis. Er y byddent yn disgwyl i'r anghenion cyllido a oedd yn wynebu CIAL ostwng yn ystod y cyfnod hwnnw, roeddent o'r farn y byddai strategaeth o'r fath wedi peryglu hyfywedd busnes y Maes Awyr, oherwydd y byddai'r cwmnïau hedfan a oedd yn ei ddefnyddio ar y pryd yn gadael. Mewn sawl ffordd, byddai'r cynnig hwnnw wedi gallu golygu y byddai conglfaen unrhyw strategaeth lwyddiannus i newid sefyllfa'r maes awyr yn cael ei cholli am byth. Roedd Duff & Phelps o'r farn mai'r opsiwn hwnnw allai fod â'r risg fwyaf yn gysylltiedig ag ef, ac y gallai arwain at ddatodi'r busnes ar ôl i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol o odduetu £10 miliwn. Dim ond darparu ar gyfer cymorth tymor byr oedd yr opsiwn hwnnw, ac nid oedd modd iddo gyflawni'r amcan o gadw'r Maes Awyr yn agored yn y tymor hir.

Ar ôl hynny, wrth i gyfrifon Holdco gael eu paratoi ar ddiwedd y flwyddyn, cafwyd prisiad llawn wedi'i ddiweddaru o asedau CIAL ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan Alder King, priswyr sydd wedi cofrestru gyda RICS. Roedd y prisiad terfynol yn £17.83 miliwn. Roedd y prisiad yn rhagdybio y byddai'r Maes Awyr yn rhoi'r gorau i weithredu fel busnes. Roedd y prisiad yn seiliedig ar Werth y Farchnad / Gwerth Teg y tir a'r adeiladau, gan dybio y byddent yn cael eu marchnata ar sail y potensial i wneud defnydd amgen ohonynt. Wrth brisio, ystyriwyd yr holl ganiatadau cynllunio a oedd yn eu lle ar y pryd, a dyna sut y pennwyd y gwerth hwnnw ar y farchnad.

Y cynllun datblygu perthnasol ar gyfer tir y Maes Awyr yw Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg 2011 − 2026, a fabwysiadwyd ar 28 Mehefin 2017. Nodir ym Mholisi MD16 (12)

o’r CDLl fod y Maes Awyr yn safle cyflogaeth sy'n bodoli eisoes. Ar safleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bod, dim ond pan ellir bodloni meini prawf penodol y caniateir cynigion ar gyfer mathau o ddefnydd nad ydynt yn rhai B1, B2 a B8. Nod Polisi MD16 yw ceisio diogelu safleoedd cyflogaeth sy’n bodoli eisoes rhag cael eu colli oni ellir dangos yn glir nad yw'r safle bellach yn addas i’w ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth ac nad yw hynny bellach yn hyfyw. Mae'r Maes Awyr yn Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd. Mae 77.4 o hectarau sy’n cyffinio â’r Maes Awyr a Port Road wedi'u dyrannu’n dir cyflogaeth strategol.

Wrth brisio, rhoddwyd ystyriaeth i’r ffaith bod eiddo'r Maes Awyr mewn lleoliad strategol yn agos i ganol dinas Caerdydd a thraffordd yr M4. Byddai eiddo'r Maes Awyr yn cael ei ystyried yn gyfle i ailddatblygu tir llwyd ar raddfa fawr. Byddai galw ymhlith perchen-feddianwyr, buddsoddwyr a datblygwyr / hapfasnachwyr am y buddiant rhydd-ddaliadol. Byddai perchen-feddiannydd yn prynu er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster pwrpasol newydd y byddai’n ei feddiannu ei hun. Ystyriwyd hefyd wrth brisio y gallai unrhyw ddatblygwr ystyried y posibiliadau o ran mathau o ddefnydd a fyddai’n uwch eu gwerth, megis defnydd preswyl, yn y dyfodol a chael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl defnydd cymysg.

Roedd yr opsiynau amgen hyn a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn canolbwyntio ar gyllid yn y dyfodol oherwydd mai dim ond pan fyddai gan CIAL fodel busnes cynaliadwy unwaith eto y gallem ystyried unrhyw opsiynau solfent posibl eraill megis bod yn bartner mewn menter ar y cyd, gwerthu i drydydd parti fel y bo CIAL yn gallu parhau i redeg y Maes Awyr ond o dan berchnogaeth newydd, neu gontract rheoli lle byddai’r sector preifat yn cael ffi am reoli'r Maes Awyr cyfan, neu ran ohoni, neu am reoli rhai gweithgareddau awyrenegol allweddol. Cafodd opsiynau posibl a oedd yn gysylltiedig ag ansolfedd eu hystyried ar y pryd hefyd, megis helpu prynwr y busnes ac asedau'r Cwmni i ddod allan o ddwylo gweinyddwyr er mwyn ei gymell i barhau i'w redeg fel Maes Awyr. Ystyriwyd hefyd ddarparu fframwaith cynllunio a chymorth cyllido i gynorthwyo un neu fwy o drydydd partïon i ailddatblygu'r ardal pe bai’n dod yn fater o ddatodi. Byddai risgiau sylweddol yn gysylltiedig â’r holl opsiynau hyn ac mae angen cryn dipyn yn rhagor o gyngor arbenigol annibynnol yn eu cylch.

Hyderaf fod yr wybodaeth uchod yn rhoi'r eglurder y mae'r Pwyllgor yn ei geisio ond cofiwch roi gwybod imi os oes gennych ragor o gwestiynau.

Byddaf hefyd yn ymrwymo i ysgrifennu maes o law at y Pwyllgor i roi canlyniad yr adolygiad o lywodraethiant Holdco ar gyfer CIAL.

Dymuniadau gorau.

Yn gywir

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol